



Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Atodiad B - Ymgynghoriad ar y Cynnig Deddfwriaethol i Ddileu
Amddiffyniad Cosb Resymol: gweithgareddau ymgynghoriad
cyhoeddus ar ran Llywodraeth Cymru – adroddiad cryno

Awst 2018

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y
Cynnig Deddfwriaethol i
Ddileu Amddiffyniad Cosb Resymol**

**Adborth o
Weithgareddau Ymgynghori â'r Cyhoedd**

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	4
Cyflwyniad.....	5
Methodoleg y Gwaith Maes.....	6
Y Canfyddiadau Allweddol.....	8
Cwestiwn Ymgynghori 1; Amddiffyn Hawliau plant.....	9
Cwestiwn Ymgynghori 2; Gwybodaeth am y Diffiniadau Allweddol.....	16
Cwestiwn Ymgynghori 3: Effeithiau posibl.....	20
Cwestiwn Ymgynghori 4; Cefnogaeth Ychwanegol.....	24
Negeseuon i'r Gweinidog.....	31
Atodiad.....	34

Crynodeb Gweithredol

Ar hyn o bryd mae'r gyfraith yn caniatáu amddiffyniad cosb resymol i rieni neu oedolion sy'n gweithredu in loco parentis yn wyneb cyhuddiad o ymosod cyffredin a churo. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i ddileu'r amddiffyniad hwn, ymrwymiad a nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu. Fel rhan o'r ymgynghori ffurfiol ar gyfer y Bil Dileu Amddiffyniad Cosb Resymol, comisiynodd Llywodraeth Cymru weithgareddau i ymgysylltu â phedair cynulleidfa allweddol:

- Gweithdai 'trafodaeth bord gron' i gynrychiolwyr cyrff rhanddeiliaid
- Grwpiau ffocws gyda rhieni
- Gweithdai gyda phobl ifanc 11-19 oed
- Holiaduron i aelodau'r cyhoedd a gwblhawyd yn ystod sesiynau 'galw heibio'

Cynhaliwyd y gwaith maes ym Mawrth 2018, a rhoddodd 274 o bobl adborth, yn benodol:

- 61 o gynrychiolwyr cyrff rhanddeiliaid¹
- 55 o rieni
- 54 o bobl ifanc
- 104 o aelodau'r cyhoedd a gwblhaodd holiaduron. O'r rheiny roedd 61 o unigolion yn rhieni i blant dan 18 oed.

Y Canfyddiadau Allweddol

Mynegwyd safbwyntiau cryf, croyw o blaid ac yn erbyn y cynnig deddfwriaethol o ran ei ddiben a'i effaith bosibl.

1. *Amddiffyn Hawliau Plant*

- At ei gilydd, cytunodd 58% o gyfranogwyr y bydd dileu amddiffyniad cosb resymol yn helpu i amddiffyn hawliau plant, anghytunodd 24% ac ni mynegodd y 19% sy'n weddill unrhyw farn.
- Teimlai'r cyfranogwyr fod gan blant hawl i blentynod diogel ac y dylai'r un hawliau gael eu hestyn i blentyn ag i unrhyw oedolyn.
- Dadleuodd o sawl a oedd o blaid dileu'r amddiffyniad ei bod yn annerbyniol i unrhyw un ddefnyddio grym corfforol yn erbyn plentyn ac y dylai fod gan blant yr un amddiffyniad o dan y gyfraith ag oedolion. Roeddent yn teimlo bod y diffiniad cyfreithiol a dderbynnir ar hyn o bryd o gosb resymol yn agored i'w gamddechongli.
- Roeddent yn dadlau y bydd y cynnig deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol yn egluro hawliau plentyn o dan UNCRC a chyfrifoldebau rhieni.
- Dadleuodd y sawl a deimlai na fydd y cynnig yn helpu i amddiffyn hawliau plant, ar y llaw arall, fod hawliau plant yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol gan gyfreithiau presennol.
- Teimlent hefyd fod Llywodraeth Cymru, wrth geisio amddiffyn hawliau plant, yn tansellio hawliau rhieni ac nad oes gan y Wladwriaeth unrhyw hawl i ymyrryd yn y ffordd mae rhieni yn magu ac yn disgyblu eu plant.

¹ Gweler Atodiad 1 am fanylion

2. Deall y Diffiniadau Allweddol

- Petai'r ddeddfwriaeth yn cael ei phasio, ni fyddai amddiffyniad cosb resymol ar gael i rieni yng Nghymru bellach a byddai'r sawl sy'n gweithredu in loco parentis yn wynebu cyhuddiad o ymosod neu guro yn erbyn plentyn sydd yn eu gofal.
- O'u holi, roedd gwybodaeth a dealltwriaeth cyfranogwyr o'r term 'cosb gorfforol' yn amrywio'n sylweddol. Teimlai llawer fod defnydd y ddau derm "cosb 'corporal'" a "chosb gorfforol" yn ymgynghoriol yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn gadael eu hystyr yn agored i'w gamddechongli gan weithwyr proffesiynol a chan y cyhoedd ehangach fel ei gilydd.
- Nododd adborth yr angen am ymgyrch addysg gyhoeddus, uchel ei phroffil i helpu rhieni i ddeall y cynnig deddfwriaethol a'i ganlyniadau posibl.

3. Effeithiau Posibl

- Ni ddaeth consensws clir i'r amlwg wrth holi rhanddeiliaid, rhieni ac aelodau'r cyhoedd a oeddent yn cytuno â dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r effaith bosibl ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, petai'r gyfraith yn cael ei newid.
- Er eu bod yn cytuno bod effeithiau craidd ar gyrff cyhoeddus wedi cael eu nodi, y farn gyffredinol oedd bod yr effeithiau heb eu hamcangyfrif yn ddigonol a bod effeithiau posibl eraill wedi eu colli, er enghraifft, gallai timau diogelu dderbyn mwy o atgyfeiriadau a allai yn eu tro wyro adnoddau o achosion mwy difrifol o gamdriniaeth plant.
- Teimlai llawer o gyfranogwyr y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o eglurdeb am y cynnig deddfwriaethol, esbonio'r camau gorfodol a ddisgwyliod oddi wrth gyrff cyhoeddus a chynnig cyngor am y goblygiadau o ran adnoddau i sicrhau bod gweithlu sydd wedi ei hyfforddi'n briodol yn ei le i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y baich gwaith.

4. Cefnogaeth ychwanegol

O'u holi am yr anghenion am gefnogaeth pe bai'r cynnig deddfwriaethol yn cael ei ddeddfu, cytunodd y mwyafrif o gyfranogwyr y dylai Llywodraeth Cymru:

- Sefydlu cefnogaeth ychwanegol i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid. Er enghraifft, dylid cynyddu nifer y rhaglenni rhianta mynediad agored, seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd ag ymgyrch proffil uchel i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd at sylw rhieni a fydd felly'n datblygu eu dealltwriaeth o'r newid arfaethedig.
- Darparu mwy o arweiniad a hyfforddiant i gefnogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen fel yr Heddlu, gweithwyr cymdeithasol ac athrawon, gan ei bod yn hanfodol datblygu arferion cyson. O ran yr angen am fwy o gefnogaeth, datblygu'r gweithlu a enwyd amlaf a hynny i sicrhau gweithredu'r ddeddfwriaeth.

Cyflwyniad

Pennwyd ymrymiad Llywodraeth Cymru i geisio cefnogaeth drawsbleidiol i roi terfyn ar amddiffyniad cosb resymol yn "Symud Cymru Ymlaen", y Rhaglen Lywodraethu (Medi 2016), sy'n amlinellu pa gamau bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella bywydau pobl yng Nghymru.

O dan y gyfraith bresennol, mae amddiffyniad cerydd rhesymol ar gael i rieni a'r sawl sy'n gweithredu in loco parentis am droseddau ymosod cyffredin a churo. Ar 18 Mai 2016, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru fwrriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i ddileu amddiffyniad cosb resymol.

Yn unol ag ymrwymiadau'r Gweinidogion, comisiynodd Llywodraeth Cymru broses ymgysylltu cyhoeddus er mwyn galluogi cynulleidfaoedd allweddol i gymryd rhan lawn yn yr ymgynghoriad ar y Bil Dileu Amddiffyniad Cosb Resymol. Roedd y broses ymgysylltu gyhoeddus hon yn rhan o ymgynghoriad ffurfiol Llywodraeth Cymru ag iddi bedair elfen ar wahân:

- Gweithdai 'Trafodaeth Fwrdd' i gynrychiolwyr cyrff rhanddeiliaid
- Sesiynau grŵp ffocws gyda rhieni²
- Gweithdai gyda phobl ifanc
- Holiaduron i aelodau'r cyhoedd eu cwblhau mewn sesiynau 'galw heibio'

Methodoleg y Gwaith Maes

Cytunodd tîm polisi Llywodraeth Cymru â dulliau'r gwaith maes a'r bwriad oedd i gyfleoedd ymgysylltu gyflawni cydbwysedd daearyddol, ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol. Digwyddodd y gwaith maes rhwng 14 - 23 Mawrth.

2.1 Digwyddiadau 'Trafodaeth Fwrdd' i gynrychiolwyr cyrff rhanddeiliaid

Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgynghori rhanbarthol yn y manau canlynol:

- Coleg y Cymoedd, Nantgarw, 14 Mawrth 2018
- Stadiwm Liberty, Abertawe, 15 Mawrth 2018
- Venue Cymru, Llandudno, 20 Mawrth 2018

Anfonodd tîm polisi Llywodraeth Cymru wahoddiad drwy e-bost at amrediad o gyrff rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y diwygiad deddfwriaethol arfaethedig. Mynychwyd y digwyddiadau gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol, Estyn, byrddau iechyd lleol, Comisiynydd Plant Cymru, grwpiau ffydd ac ymgyrchu, cyrff sector gwirfoddol ac unigolion a oedd wedi cofrestru diddordeb yn y cynnig. Cynhaliwyd pob digwyddiad dros gyfnod o ddwy awr gan gwmpasu:

- Anerchiad fideo gan y Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol;
- Cyflwyniad byr am y cynnig deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol;
a
- Gweithdai i archwilio safbwyntiau rhanddeiliaid ar y cwestiynau ymgynghori.

Am bob gweithdy, dewisodd y cyfranogwyr grŵp trafod o'u plith ag iddo hyd at 6 o bobl. Rhoddwyd deunyddiau ymgynghori a gwybodaeth gefndir dwyieithog i bob grŵp am y cynnig deddfwriaethol, a gofynnwyd iddynt benodi cadeirydd, llefarydd a sgrifellwr. Yna gofynnwyd iddynt ystyried dau gwestiwn ymgynghori yn fanwl yn ystod pob gweithdy. Yn dilyn trafodaeth, cafodd pwyntiau allweddol pob grŵp eu crynhoi ar

² Yn yr adroddiad hwn mae'r term 'rhieni' yn cyfeirio at rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid

dempled adborth safonol. Yna rhoddant drosolwg o'u trafodaethau i'r gynulleidfa gyfan yn ystod sesiwn lawn.

Yn gyfan gwbl cymerodd 61 o unigolion ran yn y gweithdai 'Trafodaeth Fwrdd', gyda 44 o gyrff rhanddeiliaid yn cael eu cynrychioli (gweler Atodiad 1). Yn ogystal â mynychu'r digwyddiadau hyn, cafodd rhanddeiliaid eu hannog hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r cynnig deddfwriaethol ymhlith eu cydweithwyr a'u cynulleidfa oedd ehangach, ac i ymateb i ymgynghoriad ar-lein Llywodraeth Cymru.

2.2 Grwpiau ffocws gyda rhieni

Cynhaliwyd pedwar grŵp³ sef:

- Grŵp Rhianta Dechrau'n Deg⁴, Caerffili
- Grŵp Rhianta Dechrau'n Deg, Sir Ddinbych
- Rhieni plant anabl, Conwy
- Cynhadledd y Rhwydwaith Rhianta, Caerffili

Cyn yr ymgynghoriad, rhoddwyd gwybodaeth ddwyieithig i bob grŵp am y cynnig deddfwriaethol, sef yr arweiniad Hawdd Ei Ddeall (Fersiwn gymunedol). Gan ddefnyddio canllaw cyfweiliad safonol, gofynnwyd iddynt ystyried, trafod a rhoi eu barn ar chwe chwestiwn ymgynghori. Yn gyfan gwbl, cymerodd 55 o rieni ran, a'r cydbwysedd rhwng y rhywiau oedd 51 o fenywod a 4 o wrywod. Roedd bron pob un (n = 48) yn rhieni i blant dan 18 oed ac amrediad oedran y cyfranogwyr oedd:

Tabl 1	
Ystod Oedran (blynyddoedd)	Nifer y rhieni
16 - 29	25
30 - 49	27
50 - 69	3

2.3 Gweithdai gyda phobl ifanc

Cynhaliwyd dau weithdy gyda phobl ifanc 11-19 oed:

- croes-doriad o fyfyrwyr gwadd o Goleg Sir Benfro, Hwlfordd
- aelodau cyngor yr ysgol a myfyrwyr chweched dosbarth o Ysgol y Berwyn, Bala, Gwynedd

Cyn y gweithdai, rhoddwyd gwybodaeth ddwyieithog i bob grŵp am y cynnig deddfwriaethol, sef arweiniad Hawdd Ei Ddarllen (fersiwn i blant a phobl ifanc). Gan ddefnyddio canllaw cyfweiliad safonol, gofynnwyd iddynt ystyried, trafod a rhoi eu safbwyntiau ar bedwar cwestiwn ymgynghori. Yn gyfan gwbl cymerodd 54 o bobl ifanc ran, 29 ohonynt yn fenyw a 25 yn wryw.

1.3 Holiaduron ymhlith aelodau'r cyhoedd

³ Defndydiwyd grwpiau sefydledig lle bu'n ymarferol oherwydd yr amserlen fer a oedd dan sylw.

⁴ Dechrau'n Deg yw rhglenn sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru sydd argael mewn ardaloedd penodedig. Bydd gan rieni sy'n mynychu gylchoedd Dechrau'n Deg blant 0-3 blwydd oed

Defnyddiwyd holiadur dwyieithog, gyda chymysgedd o gwestiynau agored a chaeedig a ganolbwyntiodd ar agweddau allweddol ar yr ymgynghoriad, i gael barn y cyhoedd drwy gyfrwng cyfweiliadau mewn dwy sesiwn 'galw heibio' a gynhaliwyd yn:

- Amgueddfa Genedlaethol Cymru Sain Ffagan, Caerdydd
- Canolfan Hamdden Colwyn, Conwy

Cwblhawyd cyfanswm o 104 o holiaduron, gyda'r cymysgedd rhwng y ddau ryw yn 48 o wrywod (46%) a 56 o fenywod (54%). Gwelir ystod oedran yr ymatebwyr yn Nhabl 2; roedd 71 o'r ymatebwyr (69%) yn rhieni ac o'r rheiny roedd 61 o unigolion (59%) yn rhieni i blant dan 18 oed.

Tabl 2	
Ystod oedran	%
O dan 16	3
16-29	26
30-49	55
50-69	14
70+	2

Er mai ymchwil ansoddol oedd y fethodoleg fwyaf priodol am agweddau ar yr ymgynghoriad hwn, mae'n bwysig cadw mewn cof ei bod yn defnyddio samplau bach sy'n cael eu dewis i sicrhau cynrychiolaeth amrediad o safbwyntiau. Nod ymchwil ansoddol yw bod yn enghreifftiol ac mae angen cymryd hyn i ystyriaeth wrth ddehongli'r canfyddiadau. Mae'r canfyddiadau ansoddol yn yr adroddiad hwn wedi eu seilio dim ond ar ymatebion a goladwyd oddi wrth y cyfranogwyr yn y gweithgareddau ymgynghori pwrpasol. Gan hynny, nid yw'r canfyddiadau yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach.

Y Canfyddiadau Allweddol

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ymatebion i bedwar cwestiwn ymgynghori allweddol a dderbyniwyd yn y gwahanol weithgareddau ymgysylltu cyhoeddus, sef digwyddiadau 'Trafodaeth Fwrdd' rhanbarthol i gynrychiolwyr cyrff rhanddeiliaid⁵, grwpiau ffocws gyda rhieni a phobl ifanc ynghyd â sesiynau 'galw heibio' i'r cyhoedd. Lle bo'n ymarferol, trafodir ymatebion i bob cwestiwn ymgynghori fesul cynulleidfa sef:

- Cynrychiolwyr cyrff rhanddeiliaid
- Rhieni
- Pobl ifanc
- Y Cyhoedd - pobl a gwblhaodd holiaduron mewn sesiynau galw heibio i'r cyhoedd

Yn gyfan gwbl rhoddodd 274 o bobl adborth drwy'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Gan leiafrif bach, roedd y rhieni hynny yr ymgynghorwyd â hwy mewn sesiynau grŵp

⁵ At ddibenion yr adroddiad hwn, diffinnir y gynulleidfa rhanddeiliaid fel cynrychiolwyr cyrff rhanddeiliaid, neu unigolion a oedd wedi cofrestru diddordeb yn y cynnig a fynychodd y digwyddiadau 'Trafodaeth Fwrdd'.

ffocws yn ymwybodol o gynnis Llywodraeth Cymru i ddileu amddiffyniad cosb resymol. Ond nid oedd y mwyafrif o bobl ifanc a'r sawl a gwblhaodd holiaduron mewn sesiynau galw heibio cyhoeddus yn ymwybodol o gynnis deddfwriaethol Llywodraeth Cymru cyn cymryd rhan yn y gweithgareddau ymgynghori.

Tabl 3; 'Ydych chi wedi clywed am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddileu amddiffyniad cosb resymol?'

Cynulleidfa	Rhanddeiliaid	Rhieni		Pobl ifanc		Y Cyhoedd		Cyfanswm	
Maint sampl (n)	-	55		54		104		213	
Ymateb	-	n	%	n	%	n	%	n	%
Ydw	Heb ei ofyn	30	55	5	9	39	37.5	74	35
Nac ydw	Heb ei ofyn	25	45	49	91	65	62.5	139	65

Cwestiwn Ymgynghori 1; Amddiffyn Hawliau plant

Gan fod polisi Llywodraeth Cymru dros blant a'u teuluoedd wedi ei osod yn gadarn yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, nod bwaol y deddfwriaeth arfaethedig yw cefnogi hawliau plant drwy wahardd defnydd cosb gorfforol, drwy ddileu amddiffyniad cosb resymol. Byddai hyn yn dileu'r anghysondeb presennol lle mae gan blant lai o amddiffyniad o ran cosb gorfforol nag oedolion.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried a oeddent o'r farn y bydd dileu amddiffyniad cosb resymol yn helpu i amddiffyn hawliau plant yng Nghymru.

Tabl 4; Ydych chi'n credu y bydd dileu amddiffyniad cosb resymol yn helpu i gyflawni'r nod o ddiogelu hawliau plant?

Cynulleidfa	Rhanddeiliaid		Rhieni		Pobl ifanc		Y Cyhoedd		Cyfanswm	
Maint sampl (n)	61		55		54		104		274	
Ymateb	n	%	n	%	n	%	n	%	n	% ⁶
cytuno	34	56	28	51	29	54	67	65	158	58
anghytuno	21	34	7	13	21	39	16	15	65	24
dim barn	6	10	20	36	4	7	21	20	51	19

⁶ Oherwydd talgrynnu, mae'n bosib na fydd canrannau bob amser yn edrych petaent yn adio i 100%.

Cytunodd mwyafrif o gyfranogwyr o bob un o'r pedair cynulleidfa y bydd dileu amddiffyniad cosb resymol yn helpu i amddiffyn hawliau plant. Wrth ystyried y cwestiwn hwn, gofynnwyd i gyfranogwyr esbonio pam roeddent yn cytuno neu'n anghytuno.

3.1. a Rhanddeiliaid

Er eu holi'n benodol am amddiffyn hawliau plant, mynegwyd safbwyntiau cryf, a fynegwyd yn eglur, hefyd am fater ehangach a oedd y rheiny a oedd yn bresennol o blaid neu yn erbyn y cynnig deddfwriaethol.

Isod gwelir y rhesymau a roddwyd gan rhanddeiliaid a gytunodd y bydd dileu amddiffyniad cosb resymol yn helpu i amddiffyn hawliau plant.

Ystyrir y diffiniad presennol o 'cosb resymol' a dderbynnir yn gyfreithiol fel bod yn rhy hen ac yn agored i'w gamddehongli. Er bod gan weithwyr proffesiynol gyfrifoldeb i hysbysu os ydynt yn credu bod plentyn mewn perygl, cydnabuwyd ei bod yn anodd diffinio 'rhesymol' yn ymarferol. Mae ei ddefnydd posibl fel amddiffyniad hefyd yn tansellio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo a chynnal hawliau plant. Teimlai'r cyfraanogwyr fod gan blant hawl i blentynod diogel ac y dylai'r un hawliau gael eu hestyn i blentyn ag i unrhyw oedolyn. Teimlent nad yw'n dderbyniol cosbi plant yn gorfforol a'r peth gorau yw ymgorffori'r neges honno yn y gyfraith. Eu barn oedd y bydd y cynnig deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol yn egluro hawliau plentyn o dan UNCRC a chyfrifoldebau rhieni. Hefyd disgrifiwyd y cynnig deddfwriaethol fel cefnogi newid diwylliannol mewn agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, newid sydd wedi digwydd yng Nghymru a'r tu hwnt, yn ystod y degawdau diwethaf.

Roedd enghreifftiau o adborth yn cynnwys:

'Os oes gan rywun yr hawl i'ch curo yna mae'n amlwg nad yw'ch hawliau chi'n cael eu hamddiffyn.'

'Mae'n anfon neges glir i'r cyhoedd yn ehangach am beth sy'n dderbyniol a beth sy'n annerbyniol o ran sut i drin plant.'

'Nid yw cosb gorfforol yn gweithio – 'dyw plant bach ddim yn deall ac mae plant hŷn yn mynd yn ddig.'

'Mae 'rhesymol' yn gallu cael ei gamddeall yn arbennig mewn diwylliannol gwahanol.'

'Jest achos i hyn ddigwydd yn y gorffennol, 'dyw hynny ddim yn golygu ei bod yn dderbyniol yng nghymdeithas heddiw gyda'r hyn a wyddon ni nawr.'

'Mae llawer o bobl a anwyd yn y 1960'au yn meddwl ei bod hi'n iawn cosbi plant yn gorfforol, hynny yw agwedd 'wnaeth hi ddim niwed i ni'. Ond mae'n dod i'r amlwg nad felly y mae hi.'

Fodd bynnag, teimlai'r rhanddeiliaid hynny a oedd o blaid y cynnig deddfwriaethol fod angen mwy o wybodaeth i rieni ddeall goblygiadau cynnig yn llawn. Nodwyd angen penodol i ystyried yr amrediad o safbwyntiau crefyddol a sensitifwyddau diwylliannol

sy'n bodoli. Hefyd pwysleisiodd cyfranogwyr bwysigrwydd ymagwedd strategol gydlynus at sicrhau bod y cynnig deddfwriaethol yn cyd-fynd â mentrau polisi eraill Llywodraeth Cymru; er enghraifft gwaith i ymdrin â Phrofiadau Andwyol Plentyndod ac i ddatblygu manau chwarae diogel.

Mynegwyd barn hefyd am sut y câi'r newid deddfwriaethol ei orfodi, gyda phryderon yn cael eu lleisio na fydd unrhyw gamau gan y llywodraeth yn atal cosb gorfforol plant yn gyfan gwbl, beth bynnag ei ffurf. Roeddent yn awgrymu bod angen strategaethau ategol ochr yn ochr â'r deddfwriaeth, os caiff ei deddfu, i fagu hyder rhieni mewn dulliau amgen, anghorfforol, o gynnal disgyblaeth fel cymorth rhianta positif a rhaglenni meithrin.

Nodir y rhesymau a roddwyd gan randdeiliaid sy'n anghytuno y bydd y cynnig deddfwriaethol yn helpu i amddiffyn hawliau plant isod.

Dadleuai cyfranogwyr fod plant yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth heb orfod dileu amddiffyniad cosb resymol. Teimlent fod hawliau plant yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol gan gyfreithiau presennol ac na fydd y cynnig yn helpu i amddiffyn hawliau plant gan nad yw'n ymdrin â'r sefyllfaoedd sylfaenol mae teuluoedd yn eu hwynebu fel iechyd gwael a thlodi. O'i chymryd i'w chasgliad rhesymegol, roeddent yn dadlau, byddai dull o'r fath sy'n seiliedig ar hawliau yn arwain at ddileu unrhyw fath o disgyblu neu gosbi plentyn. Er enghraifft, gellid gweld atal eiddo fel ffonau symudol dros dro a thynnu'n ôl breiniau fel gwadu hawliau plentyn. Hefyd teimlid na fydd cyflwyno deddfwriaeth mewydd yn newid ymddygiad rhieni. Roeddent yn dadlau, gan fod y mwyafrif o bobl eisoes yn deall ble mae'r ffiniau 'rhesymol', yn hytrach na dileu amddiffyniad cosb resymol, mae angen egluro'r gyfraith a'r derminoleg bresennol yn ehangach.

'Mae hawliau plant yn cael eu hamddiffyn o fewn cyd-destun y teulu. Mae ganddyn nhw hawl i aros o fewn y teulu heb ddylanwad a Wladwriaeth.'

'Ni fydd hyn yn cael effaith arwyddocaol. Bydd y gyfraith yn cael ei hanwybyddu fel y mae yn Sweden. Sut allwn ni blismona hyn? Bydd hyn yn cymryd yr heddlu i ffwrdd o droseddwr go iawn sy'n gwneud niwed gwirioneddol. Dysgwch rieni i ddisgyblu eu plant yn gariadus.'

Dadleuwyd y gall cosb resymol gael ei defnyddio, ac yn cael ei defnyddio, gan rieni mewn amgylchedd gofalgar, cariadus. Yn y cyd-destun hwnnw, roedd trafodaethau yn ceisio egluro dehongliad personol y cyfranogwyr o beth sy'n gyfystyr â lefel resymol o gosb gorfforol. Teimlent fod lefel resymol yn dibynnu ar y cyd-destun. Er enghraifft, dadleuwyd bod gwahaniaeth yn bodoli rhwng gafael mewn plentyn am resymau diogelwch personol, fel eu hatal rhag rhedeg tuag at draffig, a tharo plentyn ar ôl digwyddiad o'r fath. Awgrymodd ychydig o gyfranogwyr ddefnyddio ymagweddau adferol yn fwy i adfer perthnasoedd rhwng rhieni-plentyn sydd wedi eu niweidio.

'Mae cosb gorfforol yn gweithio. Ffiniau sydd wrth wraidd y peth. Ffiniau sy'n gwneud y wlad yma'n ddiogel.'

Dadl arall a gyflwynwyd oedd nad yw'r ddogfen ymgynghori yn cynnig digon o dystiolaeth bod cosb resymol yn peri niwed a bod canfyddiadau'r ymchwil sy'n cael eu dyfynnu yn groesebol. Teiment yn benodol fod Llywodraeth Cymru, wrth geisio amddiffyn hawliau plant, mewn gwirionedd yn tanseilio hawliau rhieni. Yn hynny o beth roedd yr ymgynghoriad yn cael ei ystyried yn anghytwys, a bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i hawliau rhieni. Roedd trafodaeth hefyd am rôl y Wladwriaeth mewn pennu dulliau o rianta. Gwelai rhai fod hawliau plant yn agwedd gynhenid o fywyd teulu a chyfrifoldeb rhieni; rhieni sy'n magu eu plant a nhw sy'n gwneud y penderfyniadau. Gan hynny, teimlid nad oes gan y Wladwriaeth unrhyw hawl i ymyrryd yn y ffordd mae rhieni yn magu ac yn disgyblu eu plant.

'Ai'r cwestiwn anghywir ydy hwn? A ddylai hawliau rhieni gael eu hamddiffyn yn arbennig eu hawl i ofalu am eu plentyn a'i ddisgyblu.'

'Dim ond un ochr y ddadl sydd yn y ddogfen ymgynghori. Sut dylai'r gyfraith gael ei newid ydy'r cwestiwn nid a ddylai'r gyfraith gael ei newid. 'Dyw'r ddogfen ddim yn gofyn i ba raddau dylai'r Wladwriaeth ymyrryd ym mywyd y teulu.'

Mynegwyd pryderon hefyd am ganlyniadau anfwriadol posibl y ddeddfwriaeth arfaethedig. Er enghraifft, a fyddai dileu amddiffyniad cosb resymol dim ond yn arwain at gynnydd mewn cosb gorfforol yn cael ei defnyddio heb dystion ac a fyddai'n creu cynnydd mewn mathau eraill o gosb anghorfforol niweidiol fel tynnu bwyd yn ôl, neu gamdriniaeth feddyliol/emosiynol. Hefyd ystyriwyd yr effaith negyddol ar lesiant plentyn petai achos yn mynd gerbron llys. O dan amgylchiadau o'r fath, petai rhiant yn cael ei erlyn, ei gael yn euog a'i blentyn yn cael ei symud o ofal y teulu, dadleuwyd y gallai hynny fod yn amddifadu'r plentyn wedyn o'i hawliau i fywyd teuluol.

'Os ydyn ni'n dileu'r amddiffyniad yma, bydd rhieni tu allan i'r gyfraith p'un a oedden nhw'n niweidio eu plentyn neu beidio. Nid yw curo yn golygu niwed!'

'Teimlwn fod angen anogaeth i gyflawni newid diwylliannol mewn agweddau ac ymddygiadau yn hytrach nag erlyniad troseddol.'

3.1. b Rhieni

Teimlai tua hanner y rhieni (51%) fod y cynnig deddfwriaethol yn newid cadarnhaol. Roeddent o'r farn, am fod plant yn hawdd eu niweidio, y dylai fod ganddynt yr un hawliau ag oedolion, os nad mwy.

'Mae dyletswydd gan rieni i amddiffyn eu plant. Does dim rheswm i beidio â gwneud.'

'Roeddwn i'n meddwl bod smacio â llaw yn anghyfreithlon yn barod.'

'Mae gen i bryderon am y term 'rhesymol'. Mae'n oddrychol ac mae angen i'r gyfraith fod yn 'ie neu nage' pendant.'

Hefyd roeddent yn mynegu pryderon y bydd dileu amddiffyniad cosb resymol yn gwneud pobl yn debycach o smacio eu plant yn gyfrinachol felly mewn gwirionedd

mae'n bosibl na fydd plant yn cael eu hamddiffyn. Dadleuent y bydd rhai rhieni efallai'n anfodlon newid eu hymddygiad ac roedd pryderon am sut y câi'r newid arfaethedig ei blismona. Roedd enghreifftiau o adborth yn cynnwys:

'Sut fydd yn cael ei fonitro? Oni bai bod plentyn yn codi ei lais neu roedd rhywun arall yn ei weld, sut fyddech chi'n gwybod?'

'Mae'n ddechreuad ond nid yw'n gallu amddiffyn pob plentyn. Bydd rhai rhieni'n dal i guro eu plant. Er y bydd y newid yn y gyfraith yn atal rhieni rhag cuddio tu ôl i'r esgus ei fod yn rhesymol, fe fydd yn gyrru'r broblem o dan y ddaear.'

'Gallwch chi ddirwyo pobl ond mae rnyny nhw angen atgyfnerthiad positif hefyd. Mae angen iddyn nhw wybod y rhesymau pam wnaethan nhw gollu tymer a chefnogaeth i'w rwystro rhag digwydd eto.'

3.1. c Pobl ifanc

Roedd ychydig dros hanner y bobl ifanc (54%) o blaid y cynnig. Teimlent fod pob plentyn yn haeddu cyfle i fod yn hapus ac yn ddiogel gartref ac, er eu bod yn derbyn yr angen am ddisgyblaeth, dadleuent nad oes unrhyw reswm rhesymegol pam dylai rhiant gael ei ganiatáu i guro plentyn yng Nghymru yn yr 21^{ain} Ganrif. Teimlent ei bod yn bwysig i blant wybod eu hawliau a sut allant gael gafael ar amddiffyniad cyfreithiol os oes ei angen.

'Mae'n syniad da gwneud hyn achos mae Cymru yn cydymffurfio â gwledydd eraill.'

'Dylai'r Llywodraeth atal rhieni rhag curo eu plant. Mae'n decach achos 'dyw plant ddim yn cael curo eu rhieni. 'Dyw hi ddim yn gweithio'r ddwy ffordd.'

Dadleuent fod dulliau amgen anghorfforol o ddisgyblaeth, fel cyfyngu eu cyfle i fynd allan a thynnu'n ôl eu breiniau, yn fwy effeithiol, a bod defnyddio trais tuag at blant yn eu hannog i feddwl ei bod yn dderbyniol i guro pobl eraill. Roeddent yn dadlau y dylai plant gael eu hannog gan eu rhieni i gydnabod a dysgu oddi wrth eu camgymeriadau, yn hytrach na chael eu cosbi'n gorfforol.

'Ffin denau sydd rhwng disgyblaeth a gofal cariadus. Mae cosbi plentyn gyda thrais yn peri iddyn nhw ddatrys problemau gyda thrais.'

'Mae plant yn argraffadwy ac yn gweld eu rhieni fel modelau rôl felly os ydyn nhw'n gweld rhiant yn curo eu brawd efallai y byddan nhw'n meddwl ei bod yn iawn curo pobl eraill.'

Roedd y bobl ifanc hynny a anghytunodd â'r cynnig deddfwriaethol (39%) yn ansicr a fydd newid o'r fath mewn gwirionedd yn atal rhieni rhag defnyddio cosb gorfforol yn erbyn eu plant yn breifat. Hefyd mynegant bryderon am y posibilrwydd o honiadau maleisus gan blant yn erbyn eu rhieni. Gwelodd lleiafrif y peth fel y Wladwriaeth yn ymyrryd yn ormodol yn yr hawl i fywyd preifat ac yn effeithio ar fywyd teuluol.

'Pam dylai'r Wladwriaeth benderfynu beth sy'n iawn a beth sydd o'i le ar gyfer ein plant?'

'Efallai y bydd yn rhoi mwy o hawliau i blant ond a ydy o fudd iddyn nhw o ran eu disgyblaeth? Efallai y bydd yn helpu yn eu plentyndod ond mae'n bosib na fydd yn helpu pan fyddan nhw'n hŷn os nad ydyn nhw wedi cael eu disgyblu.'

Roedd ychydig o bobl ifanc (7%) a oedd heb benderfynu, ond yn gyffredinol yn pwysleisio'r angen i gosb gorfforol fod yn rhesymol.

'Mae dwy ochr i bob stori. Ni ddylai rhieni allu curo plant ond serch hynny mae angen rhyw fath o gosb ar blant.'

'Rwy'n cytuno bod mân smac yn iawn ond nid felly smacio'n galetach achos fe allai beri ofn a gwneud i blentyn ofni siarad, gan ei adael gyda niwed seicolegol ac yn agored i gamdriniaeth.'

3.1. d Aelodau'r cyhoedd

Roedd dau o bob tri o aelodau'r cyhoedd (65%) a gwblhaodd holiaduron o blaid dileu amddiffyniad cosb resymol a themlent y byddai'n helpu i amddiffyn hawliau plant. Eu barn oedd ei bod yn annerbyniol i neb ddefnyddio grym corfforol yn erbyn plentyn ac y dylai fod gan blant yr un amddiffyniad o dan y gyfraith ag oedolion. Roeddent yn dadlau hefyd bod gormod o ansicrwydd gyda'r derminoleg gyfreithiol bresennol h.y. mae'r cysyniad o gosb resymol yn rhy agored i ddehongliad, a'u hawgrym oedd bod dulliau amgen mwy effeithiol o ddisgyblu plentyn. Roedd enghreifftiau o adborth yn cynnwys:

'Mae gan bob plentyn yw hawl i fyw yn ddiogel ac i beidio bod yn destun gweithredoedd o'r natur yma.'

'Mae'r hyn mae unigolion yn ei ystyried yn 'rhesymol' yn amrywio o riant i riant. Felly does dim modd amddiffyn plant. Mae gan blentyn yr hawl i fod yn ddiogel ac i dderbyn gofal priodol!'

'Efallai bod rhieni sydd yn cosbi eu plant yn gorfforol yn tanamcangyfrif lefel y niwed a'r poen maen nhw'n ei hachosi. Bydd eraill efallai'n ei ddefnyddio i gelu camdriniaeth. Gobeithio y byddai dileu'r amddiffyniad hwn yn amddiffyn plant a'u hawliau i beidio â dioddef niwed.'

'Mae disgyblaeth yn sgil bywyd hanfodol, ond yng ngwres o foment beth sy'n cael ei ddiffinio fel 'rhesymol'? Mae'n well cael gwaharddiad drwyddi draw fel bod gan rieni ddealltwriaeth glir.'

Llai o aelodau'r cyhoedd (15%) a ddadleuodd yn erbyn y cynnig deddfwriaethol. Roedd y rhesymau a roddwyd yn adlewyrchu pryderon cyfranogwyr am golled bosibl hawliau rhieni a'u rhyddid i arfer eu cyrfioldeb fel rhieni heb ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru. Dadleuent hefyd fod cosb gorfforol yn ffurf effeithiol o ddisgyblaeth ond bod angen iddi fod yn gymesur, yn briodol i oedran plentyn ac yn

*Cynnig Deddfwriaethol i Ddileu Amddiffyniad Cosb Resymol
Ymgynghori â Rhanddeiliaid – Adroddiad Terfynol*

rhesymol. Dadleuodd eraill y dylai effeithiau seicolegol cosb gorfforol ar blant fod yn destun ymchwil bellach cyn unrhyw newid mewn deddfwriaeth. Mynegwyd pryderon hefyd am sut y câi'r cynnig deddfwriaethol ei orfodi.

'Mae gan riant hawl i benderfynu sut i fagu plentyn. Dyna'r unig ffordd i ddysgu plentyn y da rhag y drwg.'

'Pwy sy'n magu'r plentyn - y Wladwriaeth neu'r rhieni? Y rhieni y dylai fod, gydag arweiniad ac amddiffyniad gan y Wladwriaeth.'

'Mae angen disgyblaeth ar blentyn. Os nad yw dweud wrth blentyn i beidio â chyrffwrdd â soced trydanol yn gweithio – mae curiad bach ar y llaw y atgyfnerthu'r neges.'

'Fy ngobaith i yw y basai'n atal cosb yn y cartref ond tu ôl i ddrysau caeedig 'dych chi byth yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen.'

Cwestiwn Ymgynghori 2; Gwybodaeth am y Diffiniadau Allweddol

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dileu amddiffyniad cosb resymol fel na fydd ar gael rhagor i neb sy'n wynebu cyhuddiad o guro neu ymosod. Byddai'n golygu na fyddai unrhyw oedolyn sy'n edrych ar ôl plentyn yn gallu, o dan y gyfraith, defnyddio cosb gorfforol neu 'corporal' yn ei erbyn. Gan hynny, mae'r adran hon yn canolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth cyfranogwyr o'r termau 'cosb gorfforol' a chosb 'corporal'.

Trwy gydol y gweithgareddau ymgysylltu, daeth i'r amlwg fod gwybodaeth a dealltwriaeth cyfranogwyr o'r termau cosb gorfforol a chosb 'corporal' yn amrywio'n sylweddol.

Tabl 5; Ydych chi'n gyfarwydd â'r term 'cosb gorfforol'?								
Cynulleidfa	Rhieni		Pobl ifanc		Y cyhoedd		Cyfanswm	
Maint sampl (n)	55		54		104		213	
Ymateb	n	%	n	%	n	%	n	%
ydw	28	51	26	48	76	73	130	61
nac ydw	16	29	26	48	11	11	53	25
Ddim yn siŵr	11	20	2	4	17	16	30	14

3.2. a Rhieni

Dywedodd hanner y rhieni a gymerodd ran mewn sesiynau grŵp ffocws eu bod yn gwybod y termau cosb gorfforol a chosb 'corporal'. Pan ofynnwyd iddynt roi enghreifftiau, mynegodd rhieni gryn ddryswch am y termau hyn a'r mathau o weithredoedd ac ymddygiadau sy'n gyfystyr â chosb gorfforol a chosb 'corporal'. Roedd enghreifftiau'n cynnwys smacio a tharo ynghyd â ffurfliau eraill mwy eithafol o gosb fel curo plentyn ar draws ei ben, golchi ei geg â dŵr sebonllyd, cicio, brathu a hyd yn oed llosgi â sigaret.

3.2. b Pobl ifanc

Yn yr un modd, dywedodd bron hanner y bobl ifanc (48%) a gymerodd ran mewn sesiynau grŵp ffocws eu bod yn gwybod y termau cosb gorfforol a chosb 'corporal'. Dyweodd y mwyafrif o bobl ifanc eu bod yn deall cosb gorfforol ac mewn llawer o achosion rhoesant enghreifftiau a oedd yn cynnwys slapio, curo, pwnio, tynnu gwallt, cipio ac atal rhywun. Fodd bynnag, roeddent yn llawer llai cyfarwydd â'r term cosb 'corporal'. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd cosb gan y Wladwriaeth neu sefydliad, er enghraifft o fewn carchar, neu gael eich taro gan wrthrych fel gwregys, sliper, gwialen neu chwip.

3.2. c Aelodau o'r cyhoedd

Dywedodd bron tri chwarter o aelodau'r cyhoedd (73%) eu bo dyn gwybod y termau 'cosb gorfforol a chosb 'corporal'. Pan ofynnwyd iddynt roi enghreifftiau o

weithredoedd neu ymddygiadau a oedd yn eu barn hwy yn ‘gosb gorfforol neu ‘corporal’’, rhoddodd yr unigolion hynny enghreifftiau a oedd yn cynnwys:

- Smacio (35 o enghreifftiau)
- Curo a slapio (21 o enghreifftiau)
- Atal yn gorfforol, gan gynnwys gafael, tynnu/gwthio gormodol (8 enghraifft)

Rhoddwyd amrediad eang o enghreifftiau eraill hefyd a oedd yn cynnwys:

- difrïo ar lafar
- y gris drygionus
- brathu
- pwnio
- curo â gwrthrych fel gwialen
- taro
- tynnu breiniau’n ôl
- gwrthod darparu bwyd neu gysgod

Ceisiodd lleiafrif o unigolion ddiffinio cosb gorfforol a chosb ‘corporal’. Mae enghreifftiau isod sy’n dangos yn glir yr amrediad eang o ddehongliadau o’r termau gan y cyhoedd.

‘Unrhyw beth sy’n peri anghysur i blentyn.’

‘Defnyddio trais neu wrthrych i daro neu geryddu rhywun, fel arfer plentyn.’

‘Cosb gorfforol ydy unrhyw beth sy’n peri niwed corfforol.’

‘Bydd cosb gorfforol i mi yn cynnwys unrhyw smacio neu guro plentyn. Mae cosb ‘corporal’ yn gosb sydd ddim yn cynnwys gweithred gorfforol.’

‘Cosb gorfforol ydy unrhyw beth sy’n fwy eithafol na disgyblu h.y. gosod plentyn tu allan am gyfnod hir. Cosb ‘corporal’ ydy defnyddio teclyn i weinyddu cosb e.e. gwialen.’

‘Cysylltiad â person arall sy’n cael ei wneud i’w gosbi neu mewn dicter e.e. smacio.’

‘Cosb ‘corporal’ ydy’r Wladwriaeth yn defnyddio cosb gorfforol yn hytrach na rhieni.’

3.2. d Rhanddeiliaid

Yng ngoleuni eu diddordeb yn yr ymgynghoriad, holwyd rhanddeiliaid nid a oeddent yn gwybod y termau cosb gorfforol a chosb ‘corporal’ ond yn hytrach a oeddent o’r farn bod y termau’n cael eu deall yn rhwydd (gweler tabl 6).

Tabl 6		
Ymateb (n = 61)	n	%
Ydyn	9	15

*Cynnig Deddfwriaethol i Ddileu Amddiffyniad Cosb Resymol
Ymgynghori â Rhanddeiliaid – Adroddiad Terfynol*

Nac ydyn	50	82
Ddim yn Gwybod	2	3

Anghytunodd y mwyafrif o randdeiliaid (82%); teimlent fod defnydd ymgyfnewidiol y ddau derm yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn peri dryswch. Yn ei dro, mae gwahaniaethu rhwng y ddau derm yn peri problem ac felly mae eu hystyr yn agored i'w gamddechongli gan weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ehangach fel ei gilydd. Roedd y term rhesymol hefyd yn arwain at lawer o drafodaeth, ac ystyried ei fod yn oddrychol ac unwaith eto'n agored i ddechongliad. Cytunent fod angen i Lywodraeth Cymru esbonio'r gwahaniaeth rhwng disgyblaeth a chosb a sefydlu terminoleg syml, a gytunir, am gyswllt corfforol gan riant sy'n cael ei ystyried yn niweidiol. Yn ogystal, wrth gydnabod nad yw bygythiadau o drais a bygylu h.y. cosb seicolegol, yn weithredoedd corfforol, roedd ymddygiadau o'r fath serch hynny yr un mor niweidiol ym marn rhai cyfranogwyr.

Er bod y ddogfen ymgynghori yn enwi gweithredoedd mae rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr yn eu gwneud bob dydd fel rhan o'u rôl i feithrin ac amddiffyn eu plant, gofynnodd rhai cyfranogwyr am ddiffiniad elurach o drothwyon y grym corfforol derbynol ac annerbynol. Er enghraifft, roedd canfyddiad bod y grym a ddefnyddir gan riant i amddiffyn plentyn yn wahanol iawn i weithredoedd cosb gorfforol a ddefnyddir i ddisgyblu plentyn. Dadleuai rhai cyfranogwyr fod gwahaniaeth pendant yn bodoli rhwng ffurfiau o ddisgyblaeth nad ydynt yn gadael marc, fel smacio ysgafn, a churo plentyn gyda mwy o rym. Teimlai eraill fod gwahaniaethu o'r fath yn creu 'man llwyd' a allai gael ei esbloetio'n gyfreithiol. Dadleuodd nifer fach o gyfranogwyr â chredoau crefyddol cryf fod dyletswydd arnynt, o safbwynt moesol, ufuddhau i Dduw ac nid cyfreithiau dyn.

'Beth ydy smacio? Sut mae ei ddiffinio? Mae diffyg eglurdeb am beth sy'n dod o dan gosb gorfforol.'

'Mae smac cariadus yn fath da o ddisgyblaeth. Mae'n anfoesol cymryd yr hawl yna i ffwrdd.'

'Mae eglurdeb yn dod drwy ddileu pob cosb gorfforol, gan fod pob term arall yn oddrychol a does dim dealltwriaeth gyffredin o dermau.'

Roedd enghreifftiau o weithredoedd ac ymddygiadau roeddent yn eu hystyried yn gosb gorfforol/ 'corporal' yn cynnwys smacio, curo, slapio, gafael, brathu, tynnu gwallt, pwnio, pinsio, crafu, a gwthio a thynnu. Disgrifiwyd cosb 'corporal' fel bod yn fwy ffurfiol ac yn nodweddiadol yn cael ei rhoi gan bobl mewn awdurdod. Hefyd ceisiwyd eglurhad am a fyddai ffurfiau eraill o gerydd fel difrïo llafar, bygylu ac esgeuluso (amddifadu plentyn o gynhesrwydd, bwyd neu ddillad priodol sy'n cael effaith gorfforol ar y plentyn) yn gyfystyr â chosb gorfforol petai'r cynnig deddfwriaethol yn cael ei ddeddfu. Canolbwyntiodd adborth arall rhanddeiliaid ar yr angen am ymgyrch addysg gyhoeddus i helpu rhieni i ddeall y derminoleg.

*Cynnig Deddfwriaethol i Ddileu Amddiffyniad Cosb Resymol
Ymgynghori â Rhanddeiliaid – Adroddiad Terfynol*

'Mae angen i ddiffiniad UNCRC o gosb gorfforol gael ei 'dorri i lawr' ac mae angen i rieni/gofalwyr gael eu cefnogi i ddeall y term.'

'Pe bawn i'n gweld rhywun yn smacio plentyn faswn i'n ffonio'r Gwasanaethau Plant. Oes angen i ni ddarparu tystiolaeth ategol? Fydd hyn yn gosod gwylieddyddion/tystion posibl mewn perygl?'

Cwestiwn Ymgynghori 3: Effeithiau posibl

Rhannwyd dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o effaith bosibl y cynnig deddfwriaethol ar gyrff cyhoeddus â chyfranogwyr a gwelir crynodeb ohoni isod:

- **Yr Heddlu;** mae'r pedwar heddlu yng Nghymru yn awgrymu na fydd dileu'r amddiffyniad yn newid sut maent yn gweithio ond yn dilyn newid deddfwriaethol mae'n bosib y bydd mwy o adroddiadau i ddechrau pan fydd pobl yn dod i wybod am y newid yn y gyfraith.
- Mae **Gwasanaethau Cymdeithasol** yn cefnogi teuluoedd ac yn awgrymu y byddai newid yn y gyfraith yn helpu gweithwyr cymdeithasol i roi cyngor cliriach am rianta positif.
- **Ysgolion;** mae athrawon yn gweld plant bob dydd ac yn chwarae rhan fawr mewn eu cadw'n ddiogel. Mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol eisoes i hysbysu os bydd plentyn yn dweud ei fod wedi cael ei smacio neu os ydynt yn gweld plentyn yn cael ei smacio. Ni fyddai newid yn y gyfraith yn cynyddu disgwyliadau ar athrawon yn hyn o beth.
- **Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi;** gallai rhagor o bobl gael eu hadrodd i'r heddlu yn syth ar ôl i'r gyfraith gael ei newid. Byddai Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydgysylltu â'r heddlu, yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ac yn penderfynu a fyddai erlyn er budd y cyhoedd.

(Addaswyd o ddogfen ymgynghori hawdd ei darllen Llywodraeth Cymru)

Nid oedd consensws eglur wrth holi rhanddeiliaid, rhieni ac aelodau'r cyhoedd a oeddent yn cytuno â dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r effaith bosibl ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, petai'r gyfraith yn cael ei newid.

Table 7; Ydych chi'n cytuno â dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r effaith bosibl ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, pe bai'r gyfraith yn cael ei newid?								
Cynulleidfa	Rhanddeiliaid		Rhieni		Y Cyhoedd		Cyfanswm	
Maint sampl (n)	56		29		104		189	
Ymateb	n	%	n	%	n	%	n	%
Yes	16	29	14	48	36	35	66	35
No	28	50	13	45	9	9	50	26
Ddim yn Gwybod	12	21	2	7	59	57	73	39

3.3. a Rhanddeiliaid

Er eu bod yn cytuno i'r effeithiau craidd ar gyrff cyhoeddus wedi cael eu nodi, barn gyffredinol rhanddeiliaid oedd bod yr effeithiau wedi eu tanamcangyfrif. Teimlai'r mwyafrif o rhanddeiliaid (61%) hefyd fod effeithiau posibl wedi cael eu colli. O'u holi pa

effeithiau eraill y cynnig deddfwriaethol a ddylai gael eu hystyried, enwodd rhanddeiliaid amrediad o faterion. Teimlent y byddai'r cynnig yn cynyddu baich gwaith cyrff cyhoeddus ac asiantaethau gwirfoddol eraill sydd eisoes dan bwysau i ddarparu gwasanaethau. Dadleuent y byddai gwyro adnoddau yn y modd hwn, yn ei dro, efallai'n cael effaith anfwriadol ar ddiogelu plant hawdd eu niweidio; yn arbennig ar dimau diogelu gan y byddent o bosibl yn derbyn mwy o atgyfeiriadau. Awgrymwyd y gallai hyn wyro adnoddau cyfyngedig i ffwrdd o reoli achosion mwy difrifol o gamdriniaeth plant. Hefyd efallai y bydd yn ofynnol i dimau Gwasanaethau Cymdeithasol gymryd camau i gefnogi teuluoedd hyd yn oed os na fydd Gwasanaeth erlyn y Goron yn erlyn. Yn y tymor hwy, os bydd mynediad cynhwysol i gefnogaeth ar gael ac mae newid mewn diwylliant rhieni'n cael ei gyflawni, roedd rhai cyfranogwyr yn optimistaidd y bydd yr angen am atgyfeiriadau i'r heddlu a gwasanaethau cymdeithasol yn lleihau.

'Bydd yn dibynnu a ydy'r cyhoedd yn parchu'r ddeddfwriaeth. Os ydyn nhw'n deall bod pob gweithred cosb gorfforol fel smacio yn erbyn y gyfraith ac yn ymatal rhag eu gwneud, efallai na fydd cymaint o bwysau ar gyrff /gwasanaethau cyhoeddus.'

Mynegwyd pryderon hefyd am yr effaith ariannol ar gyrff cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol gan y gallai fod mwy o alw ar wasanaethau ymyrraeth gynnar i gefnogi rhieni petai'r cynnig yn cael ei ddeddfu. Hefyd roeddent am wybod a fyddai arian ychwanegol ar gael ar gyfer gweithredu'r Bil fel y digwyddodd yn achos deddfwriaeth ddiweddar am Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn yr un modd, teimlid nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd i ystyriaeth yn llawn yr amser mae ei angen i ddarparu hyfforddiant a rhannu gwybodaeth â phob corff cyhoeddus er mwyn sicrhau ymagwedd gyson.

'Bydd angen arian/adnoddau ar wasanaethau cymdeithasol i gefnogi teuluoedd i addasu i newidiadau mewn dulliau rhianta.'

Teimlent, petai'r cynnig deddfwriaethol yn cael ei ddeddfu, ei fod yn debygol o newid y canfyddiad o Wasanaethau Cymdeithasol ledled llawer o gymunedau yng Nghymru. Yn benodol, dadleuent y gallai rôl Gwasanaethau Cymdeithasol mewn rheoli honiadau yn erbyn rhieni arwain at ddrwgdybiaeth, gan atal teuluoedd rhag gofyn am gymorth a chefnogaeth. Yn yr un modd, gallai rhieni golli ffydd yn staff o leoliadau Blynnyddoedd Cynnar ac ysgolion os oeddent yn teimlo bod eu hymddygiad tuag at eu plant yn cael ei fonitro a'i hysbysu.

Petai'r cynnig yn cael ei ddeddfu, bydd gwahaniaeth yn y ddeddfwriaeth rhwng Cymru a Lloegr. Gan fod un awdurdodaeth gyfreithiol yn unig dros Gymru a Lloegr, pan fydd gwahaniaeth o'r fath yn y gyfraith rhwng y ddwy wlad, nododd rhai cyfranogwyr angen i sicrhau bod yr isadeiledd cyfreithiol a gorfodi yng Nghymru (y llysoedd, y farnwriaeth, y proffesiwn cyfreithiol, y gwasanaeth prawf a'r heddlu) yn ymwybodol o'r gwahaniaethau ac yn gallu gweithredu'r ddeddfwriaeth yn effeithiol. Awgryment y bydd angen cyfathrebu â'r isadeiledd cyfreithiol a gorfodi yng Nghymru, a hyfforddiant ar eu cyfer, mewn perthynas â'r gwahaniaethau.

Hefyd gofynnwyd i randdeiliaid nodi pa gamau pellach i gefnogi cyrff cyhoeddus a ddylai gael eu hystyried. Roeddent yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r camau gorfodol a ddisgwyliid gan gyrff cyhoeddus, yn enwedig mewn perthynas â gwneud atgyfeiriadau, mewn ffordd sy'n cael ei ddeall yn hawdd.

'Mae angen neges glir gyson fel bod pawb yn rhoi'r un wybodaeth.'

'Beth ydy ystyr "dim ond os bydd erlyn er budd y cyhoedd" mewn gwirionedd?'

'Mae angen i brosesau arwyddbostio gael eu cytuno, a bod yn gyson. Mae angen eglurhad arnon ni am y prosesau atgyfeirio.'

'Beth sy'n digwydd yn y dyddiau cynnar? A fydd gor-gyfeirio achos bydd y gweithlu yn poeni am beidio â gwneud?'

Awgrym arall oedd am gyngor am reoli cyllidebau gwasanaethau a'r goblygiadau o ran adnoddau, er enghraifft sicrhau bod gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n briodol yn ei le i ddiwallu unrhyw gynnydd yn y baich gwaith.

Beth am y lluo o gwynion ac adroddiadau o gamdriniaeth a ddaw i mewn? A fydd yna gapasiti i ymchwilio'n effeithiol?

Roedd syniadau penodol mewn perthynas â datblygu'r gweithlu yn cynnwys darparu hyfforddiant i:

- Staff o'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Llysoedd i Blant a Theuluoedd (CAFCASS)
- Y farnwriaeth a'r proffesiwn cyfreithiol
- Byrddau Amddiffynion Plant a chynghorwyr sy'n goruchwyllo ac yn gyfrifol am amddiffyn plant e.e. aelodau cabinet ac aelodau pwyllgorau craffu plant
- Sefydliadau a gwasanaethau sy'n gweithio gyda rhieni a phlant ar ddulliau amgen yn lle cosb gorfforol
- Holl staff cyrff cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant
- Optegwyr a deintyddion am ymwneud â phlant sydd ag anghenion ychwanegol
- Ymwelwyr iechyd er mwyn galluogi lledaenu gwybodaeth i bob teulu ac iddyn nhw arfer rôl ehangach mewn cefnogi rhieni o ran disgyblaeth.

Ymhlith yr awgrymiadau eraill roedd sicrhau bod hyfforddiant i rieni ar gael nad yw'n ymddangos ei fod yn beirniadu arddulliau rhianta, ac sy'n cael ei ddarparu'n lleol mewn amgylchedd cyfeillgar. Hefyd sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn hygyrch i rieni pan fo'i angen a lle bo'n bosibl cynnwys plant a phobl ifanc yn y cyfnod cyflwyno er mwyn helpu i gyflawni newid mewn diwylliant ar draws cenedlaethau.

3.3. b Rhieni ac Aelodau'r Cyhoedd

Teimlai rhieni ac aelodau'r cyhoedd hefyd fod yr effeithiau wedi cael eu tanamcangyfrif o bosibl. Yn gyffredinol roeddent yn ei chael yn fwy anodd enwi effeithiau posibl eraill. Roedd enghreifftiau o sylwadau yn cynnwys:

*Cynnig Deddfwriaethol i Ddileu Amddiffyniad Cosb Resymol
Ymgynghori â Rhanddeiliaid – Adroddiad Terfynol*

'Bydd cynnydd mewn atgyfeiriadau a chyfraddau erlyn yn arwain at fwy o waith i'r gwasanaethau yma.'

'Fe allai roi pwysau ychwanegol ar wasanaethau cymdeithasol a'r heddlu sydd dan bwysau'n barod.'

'Mae gen i bryderon am y diffyg goruchwyliaeth ddigonol ar deuluoedd hawdd eu niweidio a phlant sydd mewn perygl.'

'Credwn y bydd yn cael mwy o effaith ar wasanaethau ac yn gosod mwy o bwysau ar weithwyr, gan beri angen am fwy o adnoddau ac arian.'

Cwestiwn Ymgynghori 4; Cefnogaeth Ychwanegol

Cytunodd llawer o gyfranogwyr (84%) y dylai Llywodraeth Cymru, petai'r cynnig deddfwriaethol yn cael ei ddeddfu, sefydlu cefnogaeth ychwanegol i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid.

Tabl 8; Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cefnogaeth ychwanegol i rieni?								
Cynulleidfa	Rhanddeiliaid		Rhieni		Y Cyhoedd		Cyfanswm	
Maint sampl (n)	55		55		104		214	
Ymateb	n	%	n	%	n	%	n	%⁷
Dylai	44	80	54	98	81	78	179	84
Na ddylai	2	4	0	0	10	10	12	6
Ddim Gwybod yn	9	16	1	2	13	12	23	11

Ymrannodd yr awgrymiadau a roddwyd am gefnogaeth ychwanegol i rieni yn ddau brif faes, sef:

- Cefnogaeth a hyfforddiant
- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

3.4. a Cymorth a hyfforddiant

Disgrifiodd rhanddeiliaid, rhieni, pobl ifanc ac aelodau'r cyhoedd i gyd sut mae rhieni sy'n cael anawsterau ar hyn o bryd yn wynebu mynediad cyfyngedig i gefnogaeth wyneb yn wyneb a rhaglenni rhianta. Y canfyddiad oedd bod hyn oherwydd 'loteri cod post' rhaglenni a seilir ar ddaearyddiaeth fel Dechrau'n Deg, lle mae gwasanaethau dim ond ar gael mewn ardaloedd anfanteisiol a hefyd i golled gwasanaethau rhianta yn sgil dirwyn Cymunedau'n Gyntaf i ben yng Nghymru.

'Mae rhai ardaloedd yn gallu darparu addysg i rieni ond nid rhai eraill. Mae'r rhaniad rhwng y dosbarthau'n cynyddu o ganlyniad i anawsterau ariannu.'

'Dylai rhieni ddim gorfod fforio am help a chefnogaeth.'

'Dylai fod gwasanaeth galw heibio i unrhyw rieni nid mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn unig.'

Cais cyffredin oedd i sicrhau bod cefnogaeth yn gydlynus ac yn hygyrch i gynifer o rieni â phosibl. Teimlid fod angen newid diwylliannol ac y byddai cynnig mynediad cynhwysol i 'gontinwmm cefnogaeth' yn helpu i oresgyn stigma canfyddedig am fynychu grwpiau rhianta a defnyddio cefnogaeth. Awgrymwyd y dylid cynyddu nifer y rhaglenni rhianta mynediad agored, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dylai rhaglenni o'r fath, yn hyblyg ac yn bwrpasol, ganolbwyntio ar ddulliau rhianta positif at

⁷ Oherwydd talgrynnu, mae'n bosib na fydd canrannau bob amser yn edrych petaent yn adio i 100%.

ddisgyblaeth a all gael eu defnyddio yn lle cosb gorfforol. Dylai hyn gynnwys darparu cefnogaeth gyn-enedigol i rieni newydd. Awgrymodd rhai cyfranogwyr gynyddu'r amrediad o raglenni meithringar am berthnasoedd ac ymyriadau tebyg sy'n canolbwyntio ar ansawdd perthnasoedd rhieni â'u plant. Teimlai eraill y dylai hyfforddiant ar sut i reoli ymddygiad heriol, gan gynnwys i rieni plant bach iawn, fod yn flaenoriaeth. Cadarnhaodd rhai cyfranogwyr rôl Canolfannau Teuluol mewn darparu gwasanaethau cymunedol o'r radd flaenaf i deuluoedd fel model positif. Hefyd nodwyd bod adnoddau ariannol cynaliadwy yn rhagofyniad i raglenni o'r fath gael eu cyflwyno mewn amgylchedd positif, cefnogol. Roedd enghreifftiau o adborth yn cynnwys:

'Mae hyfforddiant yn hanfodol yn arbennig yng nghyd-destun ymchwil ddiweddar i brofiadau andwyol plentyndod. Efallai y bydd rhieni wedi cael profiadau o gosb gorfforol wrth iddyn nhw gael eu magu a heb fod yn ymwybodol o dulliau eraill.'

'Os bydd rhieni yn cael anawsterau wrth ddisgyblu eu plentyn heb gosb gorfforol, dylai cymorth fel dosbarthiadau rhianta fod ar gael neu gymorth arall i edrych i mewn i achosion ymddygiad y plentyn.'

'Bydd angen cynyddu'r cymorth rhianta ar gyfer teuluoedd 'normal' sydd heb gael eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol.'

'Cyrsgiau rhianta ond nid yn ystod oriau gweithio.'

'Mae'r enw 'dosbarthiadau rhianta' yn gallu troi rhai pobl i ffwrdd, mae arnon ni angen syniadau rhianta ac nid rheolau cadarn.'

Teimlai rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryf fod angen cefnogaeth bwrpasol arnynt hwy i'w helpu i weithio gyda'u plant i ddeall nad yw cyfyngu corfforol yr un peth â chosb gorfforol. Hefyd nodwyd angen i ddatblygu dealltwriaeth well i weithwyr proffesiynol am effaith bosibl y ddeddfwriaeth newydd o ran rhieni plant sydd ag anabledd.

'Hyfforddiant ychwanegol am sut mae angen i rieni i blant ag anableddau ddefnyddio dulliau corfforol i atal neu ddal eu plentyn.'

'Mwy o seibiant i blant ag anableddau er mwyn rhoi amser i ffwrdd i rieni allan o sefyllfaoedd straenus. Darparu cefnogaeth ddwys i rieni o'r fath.'

Awgrym arall oedd ystyried cynnig cymorth i neiniau a theidiau/perthnasau hŷn eraill a fydd o bosibl y prif ddarparwyr gofal pan fydd rhieni'n gweithio; yng ngoleuni agweddau hanesyddol at gosb gorfforol, teimlid y gallai fod angen mwy o gefnogaeth arnynt hwy.

'I'm cenhedlaeth i, rwy'n credu y byddai cymysgedd o bobl sy'n dal i feddwl ei bod yn iawn smacio plentyn a'r rhai sy'n meddwl yn wahanol. Byddai angen addysg i gefnogi'r rhai sydd wedi defnyddio cosb gorfforol.'

Mynegwyd pryderon hefyd, petai'r cynnig yn cael ei ddeddfu, y gallai pobl fod yn fwy amharod ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus, yn arbennig teuluoedd o gymunedau hawdd eu niweidio nad ydynt yn ymddiried mewn awdurdod.

'Rydym ni'n cytuno bod angen mwy o gefnogaeth i deuluoedd ond a fydd rhieni'n agored i'r syniad o dderbyn cefnogaeth neu'n teimlo bod arnyn nhw ei hangen?'

'Mae angen i negeseuon am yr ymgyrch fod yn helaeth ac nid ar gyfer teuluoedd 'mewn perygl' yn unig neu pan fydd rhywun yn gofyn am help. Efallai na fydd teuluoedd o'r fath yn gofyn am help gyda'r deddfwriaeth yma.'

Amheuodd ychydig o gyfranogwyr rôl y llywodraeth o ran comisiynu rhaglenni i rieni, er enghraifft:

'Beth sy'n rhoi'r hawl i'r llywodraeth ddarparu hyfforddiant? Propaganda ydy e heb unrhyw gefndir gwyddonol.'

3.4. b Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

Teimlai'r mwyafrif o randdeiliaid, rhieni ac aelodau'r cyhoedd fod angen i'r holl gyrrff cyhoeddus fel Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Awdurdodau Lleol a chyrrff gwirfoddol eraill sy'n gweithio gyda theuluoedd gyfleu neges gyson am y newid deddfwriaethol arfaethedig. Roedd ceisiadau hefyd i iaith syml gael ei defnyddio i fodloni anghenion pob ymarferwr a theulu. I ategu arweiniad o'r fath, awgrymwyd bod angen ymgyrch addysg a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd, uchel ei phroffil, hefyd sy'n gysylltiedig â 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo', a hynny er mwyn:

- darparu mwy o eglurdeb am y rhesymeg dros y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig ac annog mwy o drafodaeth gyhoeddus
- cynyddu ymwybyddiaeth o ddulliau rhianta positif
- tynnu sylw at wasanaethau a chyfeirio teuluoedd at ffynonellau cymorth priodol.

'Mae angen hyrwyddo'r ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo' yn llawer ehangach gan nad yw'n grŵp ni wedi gweld y deunyddiau. Mae hyn yn bwysig, mae angen i'r ymgyrch gyrraedd pobl!'

'Mae angen gwybodaeth a chefnogaeth ar rieni. Mae angen i ni osgoi rhianta 'proffesiynol'.'

Adroddodd cyfranogwyr y dylai'r nod fod i hysbysu rhieni am y newid deddfwriaethol arfaethedig wrth sicrhau eu bod yn gofyn am gefnogaeth os oes ei hangen yn hytrach na chreu gofid am atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol ac erlyn posibl. Dylai hyn gynnwys darparu gwybodaeth gyn-enedigol i rieni newydd a chael ei ategu gan fuddsoddiad mewn gwasanaethau a rhaglenni ymyrraeth gynnar.

Cafodd yr arweiniad Hawdd Ei Ddarllen (fersiwn gymunedol) ei ddefnyddio i roi gwybodaeth gefndir am y cynnig deddfwriaethol yn y sesiynau Trafodaeth Fwrdd a'r

sesiynau grŵp ffocws i rieni. Teimlai'r mwyafrif o gyfranogwyr fod hwn yn ffynhonnell dda iawn o wybodaeth; ond roedd rhai i'r farn ei fod yn rhy arwynebol. Hefyd mynegwyd pryderon a yw'r teuluoedd hynny sydd anoddaf eu cyrraedd yn gwybod am y newid deddfwriaethol arfaethedig a'i ganlyniadau posibl, ac yn ei ddeall.

'Mae angen arweiniad ar rieni ond unwaith eto ni fyddai'r sawl sydd angen hyn yn gofyn am arweiniad o'r fath nac yn gwrando arno.'

'Mae llawer o bobl yn defnyddio cosb gorfforol fel rhan o'r drefn felly mae angen iddyn nhw wybod am dulliau amgen a'u gwneud yn ymwybodol o newidiadau yn y gyfraith.'

'Ar ôl i gymdeithas dderbyn ei bod yn anghywir curo plant, yna bydd yn ei gwneud yn haws i rieni ymatal rhag defnyddio cosb gorfforol.'

Yn arbennig, pwysleisiodd cyfranogwyr bwysigrwydd ymgysylltu â rhieni mewn modd ystyrlon i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r newid arfaethedig, er mwyn rheoli eu pryderon. Ymhlith yr awgrymiadau penodol am godi ymwybyddiaeth roedd:

- Gwneud mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r newid deddfwriaethol
- Hysbysebion ar deledu, radio ac ar-lein i ddangos i rieni dulliau llwyddiannus amgen, anghorfforol, o ddisgyblu eu plant
- Ymgyrch dosbarthu posteri ynghyd â thafleini mewn iaith blaen i bob cartref ac ysgol i gefnogi'r rheiny o bob diwylliant a grŵp ethnig
- Erthyglau newyddion rheolaidd i ddangos sut mae dileu amddiffyniad cosb resymol yn cael ei orfodi
- Llinell gyngor a chymorth bwrpasol i rieni
- Cyfarfodydd codi ymwybyddiaeth i rieni a phlant mewn ysgolion
- Dulliau creadigol eraill i ddenu sylw'r cyhoedd fel:
 - llunio llyfr stori i esbonio canlyniadau defnyddio cosb gorfforol
 - defnydd arwyddion a sticeri mewn manau cyhoeddus i atgyfnerthu'r neges allweddol, fel y rhai sy'n cael eu defnyddio mewn ymgyrchoedd dim ysmegu.

'Dylai Llywodraeth Cymru roi rhybudd o pryd fydd y newid yn dod i mewn fel bod gan yr ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus amser i sefydlu newidiadau ym mywyd teuluoedd.'

Ym mhob achos, mae angen i'r adnoddau priodol fod ar gael yn yr iaith ddewisol, yn arbennig yn y Gymraeg ac ieithoedd lleiafrifol eraill y gymuned.

Ymhlith yr awgrymiadau eraill roedd codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc, er enghraifft cyflwyno gwersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) mewn ysgolion i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau deddfwriaethol, ac yn eu deall. Gallai ymagwedd o'r fath fod yn rhan o addysg ehangach am rianta cadarnhaol i bobl ifanc cyn iddynt fynd yn rhieni. Yn yr un modd, fel mesur tymor hwy yn unol â

dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae angen i blant a phobl ifanc drafod perthnasau cadarnhaol iach o oedran cynnar.

'Beth am gefnogaeth i blant a phobl ifanc? Nhw fydd rhieni'r dyfodol.'

'I helpu i gefnogi newid diwylliannol, mae angen cael barn plant am fathau o gosb ac yn eu tro mae angen iddyn nhw ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau.'

Roedd ar bobl ifanc eisiau ffiniau diffiniedig o fathau derbyniol o ddisgyblaeth mewn deddfwriaeth ac roeddent yn pwysleisio'r angen i ddarparu gwybodaeth glir i rieni. Teimlent nad yw llawer o blant yn rhoi gwybod am achosion o gosb gorfforol am eu bod yn ofni'r canlyniadau. I annog plant i sôn am hyn, awgrymwyd bod angen eiriolaeth; mynediad i oedolyn dibynadwy sy'n gallu eu helpu i'w llais gael ei glywed a chael cymorth iddynt heb ymwneud â'u rhieni. Dadleuodd ychydig hefyd y dylai fod mesurau diogelwch ar waith er mwyn:

- monitro llesiant plant yn achos erlyniadau aflwyddiannus
- amddiffyn rhieni rag cyhuddiadau maleisus.

Nododd rhanddeiliaid angen tebyg am wasanaethau i gefnogi llesiant emosiynol plant a phobl ifanc; yn arbennig y sawl sydd wedi cael eu niweidio gan eu rhieni, gan eu helpu i ddelio ag anghydfod mewnol amddiffyn eu hunain a chanlyniadau rhoi gwybod am eu rhieni.

Cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr (84%) y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o arweiniad neu hyfforddiant i gefnogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen fel yr Heddlu, gweithwyr cymdeithasol ac athrawon, pe bai'r cynnig deddfwriaethol yn cael ei ddeddfu.

Tabl 9; Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o arweiniad neu hyfforddiant i gefnogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen?

Cynulleidfa	Rhanddeiliaid		Rhieni		Y Cyhoedd		Cyfanswm	
	n	%	n	%	n	%	n	%
Maint sampl (n)	55		55		104		214	
Ymateb	n	%	n	%	n	%	n	%
Dylai	42	76	49	89	89	86	180	84
Ni ddylai	5	9	0	0	4	4	9	4
Ddim Gwybod yn	8	15	6	11	11	10	25	12

O gryn dipyn, roedd datblygu'r gweithlu ar gyfer staff mewn gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, oedd yr angen cefnogaeth pennaf a enwyd i sicrhau gweithredu'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn llwyddiannus. Cydnabu cyfranogwyr fod datblygu arfer cyson ar draws pob sector yn hanfodol, gyda cheisiadau am hyfforddiant a chnialwiau cenedlaethol cyson. Roedd yr adborth yn

canolbwyntio ar yr angen am ddatblygiad proffesiynol o'r radd flaenaf i godi ymwybyddiaeth o'r newid arfaetehdig mewn deddfwriaeth a'i effeithiau posibl ar gyfer:

- pob ymarferwr rheng flaen gan gynnwys gweithwyr proffesiynol maes iechyd
- staff mewn lleoliadau eraill gan gynnwys y sawl sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant ar sail wirfoddol y mae arnynt angen fynediad cyfartal i hyfforddiant da hefyd.

Awgrymodd cyfranogwyr yr angen i:

- Archwilio'r gweithlu presennol i nodi anghenion am ddatblygiad proffesiynol ym mhob sector.
- Teilwra hyfforddiant i gyd-fynd ag anghenion lleoliadau a sectorau gwahanol.
- Gosod hyfforddiant o fewn cyd-destun hawliau plant ac UNCRC.
- Defnyddio model Hyfforddi'r Hyfforddwr i raeadru hyfforddiant a, lle bo'n ymarferol, cynnwys rhieni mewn modelu arfer a mentora rhieni eraill o gymunedau tebyg.
- Ategu cyfleoedd datblygiad proffesiynol wyneb yn wyneb â deunyddiau ar-lein.
- Darparu hyfforddiant diweddarau rheolaidd.

'Mae angen darparu cyngor eglur i weithwyr rheng flaen ond heb drosglwyddo cyfrifoldebau rhieni i'r gweithlu.'

'Dylai'r un hyfforddiant gael ei roi i bob gweithiwr proffesiynol, gyda diweddariadau rheolaidd, fel nad yw negeseuon cymysg yn cael eu rhoi i'r cyhoedd.'

'Cynyddu hyfforddiant ynghylch plant ag anghenion ychwanegol gan nad yw gweithwyr proffesiynol yn wybodus am y dulliau gwahanol i drin plant o'r fath.'

Fodd bynnag, teimlai ychydig o gyfranogwyr nad oes angen datblygiad proffesiynol ychwanegol gan fod materion diogelu eisoes yn cael sylw yn rheolaidd ymhlith gweithwyr proffesiynol rheng flaen. Mynegwyd ambell i bryder hefyd am gynnwys a negeseuon unrhyw raglen hyfforddiant genedlaethol.

Angen arall am gefnogaeth a enwyd yn aml oedd yr angen am ganllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen i sicrhau gweithredu'r cynnig deddfwriaethol yn gyson ledled pob corff cyhoeddus. Teimlai bron pob cyfranogwr ei bod yn hanfodol cael canllawiau diamwys cyn gweithredu. Teimlent y bydd angen i Lywodraeth Cymru roi cyfeiriad clir o ran goblygiadau a pharmedrau cyfreithiol er mwyn sicrhau bod ymagwedd gyson yn cael ei mabwysiadu.

Byddai canllawniau o'r fath yn:

- egluro'r diffiniadau o gosb gorfforol, cosb "corporal" a chosb resymol
- rhoi manylion yr amserlen ar gyfer gweithredu
- grymuso ymarferwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am pryd a sut i gymryd camau
- nodi rolau, cyfrifoldebau a lefelau atebolrwydd
- sicrhau bod amddiffyniad plant a diogelu yn aros yn brif flaenoriaeth
- galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sut i gyflawni newid diwylliannol wrth weithio gyda rhieni
- nodi ymagweddau positif o gefnogi teuluoedd ac awgrymu dulliau o liniaru pryderon rhieni

*Cynnig Deddfwriaethol i Ddileu Amddiffyniad Cosb Resymol
Ymgynghori â Rhanddeiliaid – Adroddiad Terfynol*

Roedd cyllid cynaliadwy yn angen arall a enwyd yn aml ac ystyriwyd bod hyn yn hanfodol i lwyddo wrth weithredu'r cynnig deddfwriaethol; yn benodol i ariannu rhaglenni, cynnal y gweithlu presennol ac, os oes angen, cynyddu lefelau staff. Awgrymodd cyfranogwyr fod angen cyllid am resymau ychwanegol a oedd yn cynnwys:

- galluogi gwasanaethau cyhoeddus i gynllunio'n strategol a blaenoriaethu anghenion o ran hyfforddiant
- hyfforddi staff presennol gan gynnwys gweithwyr proffesiynol mewn Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Plant
- cyflwyno a lledaenu gwybodaeth am y deddfwriaeth newydd

Mynegwyd pryderon am y goblygiadau cost i wasanaethau cyhoeddus a oedd, yn ôl y canfyddiad, eisoes wedi eu gorymestyn, fel Gwasanaethau Cymdeithasol, a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Negeseuon i'r Gweinidog

4.1 Rhanddeiliaid

Yn dilyn eu trafodaethau grŵp yn y gweithdai Trafodaeth Fwrdd, gofynnwyd i rhanddeiliaid grynhai eu negeseuon pennaf i'r Gweinidog am y cynnig deddfwriaethol.

4.1. a O Blaid

'Dylai plant dderbyn yr un cwrteisi ag oedolion o dan y gyfraith. Dylai Cymru gynnal UNCRC.'

'Rhowch blant wrth ganol eich meddwl, amddiffynnwch eu hawliau o dan UNCRC.'

'Mae deddfwriaeth yn ddefnyddiol, ond meddyliwch amdani'n ofalus a rhowch deuluoedd wrth ganol eich penderfyniad.'

'Mae angen newid mewn diwylliant a sicrhau bod disgwyliadau'n glir i bawb. Mae arnon ni angen gweithredoedd ac nid deddfwriaeth yn unig.'

'Cefnogwch deuluoedd i ddatblygu eu sgiliau rhianta.'

'Gwnewch yn siŵr fod amddiffyn a diogelu plant yn ganolog o hyd.'

'Mae'r newid arfaethedig yn cefnogi newid diwylliannol; anogaeth, addysg ac arweiniad sydd eu hangen yn hytrach nag ymagwedd lym at erlyn.'

'Bydd gwybodaeth ffeithiol glir sy'n hygyrch ac yn cynnwys pob oedran yn bwysig i lwyddiant y cynigion hyn.'

'A gawn ni fwy o eglurdeb a diffiniadau clir os gwelwch yn dda, ynghyd â chefnogaeth i rieni?'

'Mae'n bwysig cyfleu gwybodaeth am rianta i bob rhiant ac nid y rhai sy'n rhan o raglenni pwrpasol yn unig.'

'Dylai fod gan rieni lais ac ymddiriedaeth. Cynhwyswch rieni yn y newidiadau os byddan nhw'n digwydd.'

'Arian i'w weithredu - cefnogaeth ac adnoddau cynhwysol os gwelwch yn dda!'

4.1. b Yn erbyn

'Mae diffyg eglurdeb yn y Bil o ran ei fwriad a'i gymhwysiad. Teimlwn fod y gyfraith yma'n wastraff diangen ar amser ac arian cyhoeddus. Mae prinder sylfaen dystiolaeth ac mae felly'n ddull o orfodi ideoleg Llywodraeth Cymru am rianta drwy fgygythiad cyfreithiol.'

'Ystyriwch yr effaith ar hawliau rhieni. Argyhoeddwch rieni cyn newid y gyfraith.'

'Da chi, peidiwch â newid y gyfraith bresennol.'

'Mae angen mwy o eglurdeb am y termau allweddol ac effaith bosib y newid arfaethedig.'

'Ble mae'r dystiolaeth y bydd hyn yn cael yr effaith sy'n cael ei cheisio?'

'Dangoswch y dystiolaeth na fydd effaith fawr ar wasanaethau cyhoeddus. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl barod.'

'Rydym ni'n poeni am lefel yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r cynnig hwn.'

'Mae gennym ni bryderon am ddisgyblaeth y plentyn, y bydd efallai'n dod yn fwy haerllug tuag at y rhiant. Hefyd am adroddiadau o'r cyhoedd sydd wedi camddehongli sefyllfa rhwng rhiant a phlentyn, a chanlyniadau posibl hynny.'

4.2 Aelodau'r cyhoedd

Ar ôl cwblhau'r holiadur, gofynnwyd i aelodau'r cyhoedd a oedd unrhyw beth hoffent ei ddweud am y cynnig i ddileu amddiffyniad cosb resymol; ymatebodd 35 o bobl (34%). Roedd y mwyafrif o'r sylwadau o blaid y cynnig. Roedd enghreifftiau yn cynnwys:

'Rwy'n credu y dylai cosb gorfforol gael ei gwahardd heb ofyn i rieni – ewch amdani.'

'Rwy'n credu mai barn ehangach y cyhoedd yw bod smacio yn annerbyniol a bod llawer o dechnegau disgyblu/cosbi eraill yr un mor effeithiol, os nad mwy felly.'

'Dylai fod mwy o bwyslais ar pam mae plant yn camymddwyn yn hytrach na defnydd cosb gorfforol achos mae'n dysgu i genedlaethau mai trais yw'r ateb, ac nid felly mae hi.'

'Rwy'n credu y byddai pob plentyn ar ei elw. 'Dyw hi byth yn iawn i guro plentyn ac os bydd hyn yn atal hyd yn oed un achos o gamdriniaeth ddifrifol, mae'n werth ei wneud.'

'Doeddwn i ddim wedi sylweddoli bod yr amddiffyniad yma ar waith ar hyn o bryd. Yn teimlo nad oes dim modd ei gyfiawnhau'n foesegol.'

'Mae gan blentyn hawl i fod yn rhydd rhag ei anafu mewn unrhyw sefyllfa. Ond mae gennym boblogaeth gynyddol o blant heriol a phlant ag anghenion arbennig sydd angen ymagwedd wahanol.'

'Mae'n cael ei dderbyn yn eang bod cosbi plant yn gorfforol yn annerbyniol. Petai rhiant yn colli ei dymer ac yn smacio plentyn, pam byddai 'cosb resymol' yn amddiffyniad? Ni fyddai felly petai'n colli ei dymer gydag oedolyn! Ymosodiad fasai hynny.'

*Cynnig Deddfwriaethol i Ddileu Amddiffyniad Cosb Resymol
Ymgynghori â Rhanddeiliaid – Adroddiad Terfynol*

'Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ystyried gweithredoedd rhieni yng nghyd-destun eu trawma/profiadau plentyndod eu hun. Yn aml nid yw pobl yn ymwybodol o'r gwahanol ddulliau i helpu i ddelio ag ymddygiad plant pan fydd yn 'anodd'.'

'Mae cosb gorfforol yn anghywir bob tro. Does dim modd cyfiawnhau unrhyw fath o gamdriniaeth.'

'Rwy'n ymwybodol o gynifer o bobl sy'n cytuno y dylai'r amddiffyniad hwn gael ei ddileu ond nad ydyn nhw'n ycmryd rhan yn yr ymgynghoriad hyd yma!'

Gwnaed llai o sylwadau yn erbyn y cynnig. Roedd enghreifftiau yn cynnwys:

'Ydy e'n realistig, yn ddemocrataidd neu'n seiliedig ar dystiolaeth?'

'Yr eironi yw bod y Bil yn anghytuno ag ymagwedd gosbol tuag at blant ond yn mabwysiadu ymagwedd gosbol tuag at rieni.'

'Mae'n ddigon anodd fel rhiant heb rywun yn dweud wrthy ch i'n gyson beth i'w wneud. Oni ddylai barn ddod i mewn i hyn. Fasa'r lleiafrif o rieni sy'n cosbi eu plant yn y fath fodd yn dal i'w wneud beth bynnag y gyfraith. Efallai bod angen edrych ar hawliau rhieni nid jest hawliau plant. Mae rhesymol a rheolaidd yn wahanol iawn.'

'Bydd cymryd i fwrdd amddiffyniad cosb resymol yn cynyddu trosedd gan bobl ifanc gan na fyddan nhw'n dysgu.'

'Mae cymryd hawliau rhieni i fwrdd yn mynd i gynyddu nifer y plant diddisgyblaeth, mae llawer o blant sydd heb unrhyw barch am y gyfraith/awdurdod ac yn ôl pob golwg mae hyn yn gysylltiedig â'r lleihad mewn cosbau effeithiol.'

'Rwy'n credu bod angen cryn ofal i beidio â gor-ymateb i fân ddigwyddiadau i atal rhieni â bwriadau da rhag cael eu difenwi am fân drosedd neu un awtomatig.'

'Fy mhryder i yw y gallai smacio llaw plentyn wneud rhiant yn droseddwr.'

'Mae rheoli ymddygiad gartref yn gallu bod yn heriol heb gefnogaeth a hyfforddiant.'

'Mae angen cydnabyddiaeth bod cymaint o bwysau ar rieni a phlant y dyddiau hyn a bod angen help llaw arnyn nhw. Ydy smac ar y llaw cynddrwg â thorri asgwrn neu beri cleisiau?'

'Mae pethau'n mynd i fynd yn llawer mwy anodd mewn bywyd bob dydd os bydd y gyfraith yn newid. Bydd plant yn teimlo wedi eu grymuso i guro eu rhieni gan wybod nad oes dim y gall y rhiant ei wneud os bydd hyn yn digwydd.'

Atodiad

Atodiad 1: cyrff rhanddeiliaid a gynrychiolwyd mewn digwyddiadau Trafodaeth Fwrdd	
1.	Gweithredu dros Blant
2.	Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg (AEP)
3.	Cymdeithas o Eglwysi Efengylaidd yng Nghymru
4.	Eglwys yr Holl Genhedloedd, Caerdydd
5.	Be Reasonable
6.	Eglwys Gymunedol Bethel, Maesteg
7.	Eglwys Bresbyteraidd Bethel, Caerdydd
8.	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
9.	Eglwys Pentref Brynteg
10.	Cyngor Caerdydd
11.	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
12.	'Sdim Curo Plant Cymru
13.	Plant yng Nghymru
14.	Comisiynydd Plant Cymru
15.	Yr Eglwys yng Nghymru
16.	Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
17.	Dinas a Sir Abertawe
18.	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
19.	Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
20.	Estyn
21.	Tim Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig a Phobl Ifanc (EYST) Abertawe
22.	Family Education Trust
23.	Dechrau'n Deg Sir y Fflint
24.	Dechrau'n Deg, Caerdydd
25.	Llywodraethwyr Cymru
26.	GwE, Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru
27.	Eglwys Efengylaidd y Mynydd Bychan, Caerdydd
28.	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru
29.	Home-Start, Wrecsam
30.	Eglwys Bresbyteraidd Immanuel, Caerdydd
31.	Eglwys Bedyddwyr Lighthouse, Abergele
32.	Academi Morgan, Prifysgol Abertawe
33.	Mudiad Meithrin
34.	Castell-nedd Port Talbot; Gwasanaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
35.	Cyngor Dinas Casnewydd
36.	NSPCC Cymru
37.	PACEY Cymru
38.	Y Rhwydwaith Rhieni
39.	Eglwys Bresbyteraidd Cymru
40.	Snap Cymru
41.	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
42.	Yr Eglwys Ddiwygideig Unedig

*Cynnig Deddfwriaethol i Ddileu Amddiffyniad Cosb Resymol
Ymgynghori â Rhanddeiliaid – Adroddiad Terfynol*

43. Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru
44. Arsyllfa Cymru; Hawliau dynol Plant a Phobl Ifanc, Prifysgol Abertawe

Cynhyrchodd Cazbah yr adroddiad hwn ar ran Llywodraeth Cymru. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y gweithgareddau ymgysylltu. Heb eich amser a'ch cydweithrediad ni fuasai'r agwedd hon ar yr ymgynghoriad yn bosibl.